

9^{fed} o Orffennaf 2021

Annwyl riant/ofalwr

Wrth inni agosáu at ddiwedd y flwyddyn academiaidd, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am rai dyddiadau a digwyddiadau allweddol. Rwyf hefyd am gydnabod, a diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi cysylltu â'r ysgol i ddangos eich gwerthfawrogiad am yr ymdrechion a wnaed i baratoi disgyblion ar gyfer eu asesiadau 'CDG'. Gweithiodd staff a myfyrwyr yn galed o dan amgylchiadau anodd, gan ddangos cryn dipyn o wytnwch sydd wedi cael effaith positif.

Trefniadau diwedd tymor:

- **Y diwrnod olaf i'r disgyblion yw Dydd Iau 15^{fed} o Orffennaf.** Ar y diwrnod hwn byddwn yn cydnabod cyflawniad y disgyblion trwy gydol y flwyddyn, trwy gynnal gwasanaethau arbennig. Mae Dydd Gwener 16^{eg} o Orffennaf yn ddiwrnod HMS dynodedig, lle bydd staff yn paratoi ar gyfer datblygiadau y Cwricwlwm Newydd ac yn cynllunio ar gyfer dychwelyd ym mis Medi.
- Rydym yn bwriadu cynnal diwrnod chwaraeon Dydd Mercher 14^{eg} o Orffennaf, os bydd y tywydd yn caniatáu. Mae'r diwrnod wedi'i aildrefnu er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl gymryd rhan. Fel ysgol, rydym yn teimlo y bydd digwyddiad o'r natur hwn yn helpu i orffen yr hyn a fu'n flwyddyn hynod o anodd, mewn ffordd gadarnhaol, gan hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i ysgol lle mae pawb yn aelod gwerthfawr. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i leihau'r risg gymaint â phosibl trwy sicrhau ein bod yn defnyddio protocolau diogel i'r digwyddiad cyfan. Rydym wedi creu asesiad risg manwl sydd ar gael i chi ei weld ar ein gwefan. Cysylltwch â'r ysgol os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Diwrnod canlyniadau TGAU:

Nodyn i'ch atgoffa bod diwrnod canlyniadau TGAU Ddydd Iau 12^{fed} o Awst. Anfonir manylion am y trefniadau ar gyfer y diwrnod at ddisgyblion ym mlynnyddoedd 10 ac 11 maes o law.

Rhybudd ymlaen llaw - dechrau'r tymor ym mis Medi.

Er ein bod yn parhau i aros am ddiweddariad canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru, rwy'n teimlo ei fod yn bwysig eich bod yn ymwybodol o'n bwriad presennol ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi:

- Mae Dydd Mercher 1^{af} o Fedi wedi'i neilltuo ar gyfer cynllunio a pharatoi.
- Bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol fel a ganlyn:

Dydd/dyddiad	Grwpiau Blwyddyn yn yr ysgol o'r dyddiad hwn ymlaen
Dydd Iau 2ail o Fedi	Blynyddoedd 7 ac 11 yn unig. (Bydd grŵp bach o ddisgyblion o Flynyddoedd 9 a 10 yn cael hyfforddiant mentora. Cysylltir â'r disgyblion hyn yn uniongyrchol).
Dydd Gwener 3ydd o Fedi	Pob grŵp blwyddyn: 7, 8, 9, 10 ac 11.



Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards



Gall y trefniadau uchod newid, a byddant yn dibynnu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru. Byddaf yn darparu diweddariadau pellach mewn llythyr diwedd tymor i rieni yr wythnos nesaf.

Gwisg ysgol:

Mae'r disgyblion wedi cael yr hawl i wisgo'r wisg haf (crys polo gwyrdd) yn ystod y tymor hwn, ac mae llawer wedi dewis gwneud hynny.

Ym mis Medi, bydd disgwyl i bob disgybl wisgo crys, tei, siwmpwr ysgol a cit AG. Unwaith eto, rydym yn parhau i aros am arweiniad ynghylch i'r disgyblion wisgo cit AG i'r ysgol ar ddiwrnodau pan fydd ganddynt AG, neu fyddant yn cael newid yn yr ysgol am wersi AG/gemau. Byddaf yn darparu rhagor o fanylion am ein disgwyliadau gwisg ysgol yn y cylchlythyr diwedd tymor.

Gellir prynu gwisg ysgol a cit Addysg Gorfforol oddi wrth –

'Naturals', Abergwaun

'Tees R Us', www.teesrus.co.uk

'Matthews Menswear and Schoolwear', Hwlfordd

'Covid-19':

Er ei bod yn anffodus ein bod wedi cael un achos cadarnhaol o Covid yn yr ysgol, hoffwn eich hysbysu na nodwyd unrhyw achosion eraill, a bod y person ifanc yr effeithiwyd arno yn gwella'n dda. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi gweithredu fel arfer trwy gydol yr wythnos, gan sicrhau bod disgyblion sydd wedi bod yn hunan-ynysu yn gweithio ar 'Google Classrooms'. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r holl ddisgyblion yn ôl i'r ysgol o Ddydd Llun 12^{fed} o Orffennaf.

Hoffwn eich annog i fod yn wylidwrus o'r symptomau arferol, yn ogystal ag ystod ehangach o symptomau (mewn print bras isod) sy'n gysylltiedig â'r amrywiadau newydd, fel yr amlinellwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru:

1. Peswch newydd a pharhaus
2. Tymheredd uchel
3. Colli blas ac arogl
4. **Blinder a/neu poen cyhyr**
5. **Gwddf tost a chur pen**
6. **Trwyn yn rhedeg**
7. **Cyfog a/neu chwydu**
8. **Dolur rhydd**

Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards



Peidiwch ag anfon eich plentyn/plant i'r ysgol os maent yn arddangos unrhyw un o'r symptomau uchod, yn enwedig os ydyn nhw'n symptomau newydd a/neu anghyffredin. Ystyriwch archebu prawf 'PCR' cyn gynted â phosibl. Dylai eich plentyn hunan-ynysu tra yn aros am ganlyniad y prawf. Rhowch wybod i'r ysgol cyn gynted â phosibl os oes gennych unrhyw bryderon.

Rwy'n falch bod mwyafrif o'n disgyblion yn cymryd rhan yn y Rhaglen Profi Llif Ochrol. Byddwch wedi derbyn llythyron yn egluro rhesymeg a methodoleg cynnal profion 'cartref' ddwywaith yr wythnos. Y mwyaf o ddisgyblion sy'n cymryd rhan, y mwyaf hyderus y gallwn fod, nad yw'r pandemig yn cylchredeg yn yr ysgol. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, gofynnaf am eich cefnogaeth i gytuno i ganiatáu i'ch plentyn/plant gymryd rhan yn y rhaglen. Pe byddem yn ddigon anffodus i gael achos cadarnhaol, bydd canlyniadau'r Profion Llif Ochrol yn ei gwneud hi'n haws adnabod disgyblion na fyddai angen iddynt hunan-ynysu, ond yn hytrach gallu parhau i weithio o'r ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Paul Edwards